


Un o'r Cennau Seren *Coniocarpon cinnabarinum*




**Thalws:** llwyd golau i felynlwyd, prothalws brown yn aml  
**Apothesia:** tebyg i seren neu grwn, brychau brown cochlyd, canghennog weithiau, pruna lliw sinamon ar yr ymylon pan yn ffres  
**Rhywogaethau tebyg:** yr hawsaf i'w adnabod pan fydd gan y cyrff ffrwytho ffres y pruna lliw sinamon, ond hyd yn oed wedyn mae rhywogaethau tebyg iawn (e.e. *Arthonia elegans*) ac mae angen cadarnhad microsgopig  
**Nodiadau:** cyffredin

Cen Gwyrn *Thelotrema lepadinum*



**Thalws:** cymharol wyn, llwyd golau neu liw hufennog, lympiog yn aml  
**Apothesia:** dafadennau crwn toreithiog, bach yn tyfu yn y thalws gydag ymyl allanol trwchus ac ymyl mewnol papurrog tenau sy'n gwneud iddo edrych yn debyg i gregyn llong  
**Nodiadau:** anghyffredin (ond yn gyffredin ar rai safleoedd). I'w cael ar amrywiaeth eang o goed, mewn hen goetiroedd fel rheol, hefyd yn y gymuned Lobarion (Canllaw 1)


Cen Coma *Arthothelium ruanum*



**Thalws:** gwyn hufennog, llwyd golau, llwydfrown neu lwyd olewydd, prothalws tywyll weithiau  
**Apothesia:** blotiau afreolaidd neu bron yn serenog hyd at 2mm, yn aml yn chwalo mewn manau ac weithiau wedi'u gorchuddio'n rhannol gan gelloedd rhisgl  
**Rhywogaethau tebyg:** mae posib eu camgymryd am *Arthonia radiata* ond mae gan y rhywogaeth hon thalws tywyllach fel rheol, mae angen archwiliad microsgopig i fod yn sicr.  
**Nodiadau:** anghyffredin

4. A yw'r gramen wedi'i orchuddio â pimples? Cen brech.

Un o'r Cennau Brech *Pyrenula laevigata*



**Thalws:** gwyn, ariannaidd neu liw hufen  
**Perithecia:** conigol du, tebyg i losgfyndd, perithecia hyd at tua 0.6mm. Hefyd yn bresennol mae dotiau llai fyth (pyncnidia), yn enwedig ar yr ymylon pan maent mewn mosaigau lle maent yn edrych fel pwythau  
**Nodiadau:** prin. Yn ffurfio mosaigau cymhleth ag ef a rhywogaethau tebyg eraill, yn llai ac yn wynnach na rhywogaethau *Pyrenula* eraill. Cysylltiad cryf â chynefin coedwig law dymherus


3. Ydy'r gramen wedi'i gorchuddio â dafadennau? Cen brech.

Un o'r Cennau Dafadennog *Lepra multipuncta*



**Thalws:** llwyd golau, weithiau'n wyrdd, gall fod yn denau neu'n drwchus, yn lympiog ac wedi cracio yn aml  
**Apothesia:** wedi'i guddio o dan dwmpath o soredia fel rheol  
**Soredia:** mae soredia yn cuddio'r apothesia felly mae'n ymddangos fel pe bai mewn twmpathau cudd ar y thalws, fel rheol yn wyn amlwg ac yn cyferbynnu'n gryf â'r thalws  
**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Lepra* eraill; efallai y bydd angen archwiliad microsgopig neu gemegol i gadarnhau ond mae'r cyfuniad o nodwedion a ddisgrifir yma yn ddiabynadwy fel rheol. Mae gan y *Lepra amara* tebyg iawn flas chwerw  
**Nodiadau:** cyffredin

Un o'r Cennau Brech *Pyrenula macrospora*



**Thalws:** trwchus a chwyrtaidd, brown golau i liw olewydd gyda brychau gwyn mân dros yr wyneb, prothalws tywyll  
**Perithecia:** conigol du, tebyg i losgfyndd, perithecia hyd at 1mm o ddiometr, gyda thwll bach iawn fel mandwil i'w weld yn y top weithiau  
**Nodiadau:** cyffredin. Yn ffurfio mosaigau cymhleth ag ef ei hun a rhywogaethau tebyg eraill e.e. *Enterographa crassa* pob un unigol wedi'i wahanu â llinell ddu (prothalws)

**Plantlife ydym ni**

Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwyllt a'r ffyngau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear.

Gyda dau o bob pum rhywogaeth o blanhigion mewn perygl o ddiplannu, colli bioamrywiaeth yw'r cyflymaf y bu erioed ac ni fu gwaith Plantlife erioed mor hanfodol. **Helpwch i sicrhau byd llawn planhigion gwyllt a ffyngau trwy ddot yn aelod o Plantlife heddiw.**

**Plantlife**  
 Brewery House  
 36 Milford Street, Salisbury  
 Wiltshire, SP1 2AP  
[enquiries@plantlife.org.uk](mailto:enquiries@plantlife.org.uk)  
[plantlife.org.uk](http://plantlife.org.uk)

**Lawrlwythwch gopi digidol o'r canllaw hwn a darganfod mwy am reoli coedwigoedd glaw:**

Sganiwch y cod QR neu ymwelwch [joinplantlife.org/temperate-rainforest-c-graph](http://joinplantlife.org/temperate-rainforest-c-graph)



**Geirfa**

**Apothesia:** strwythurau atgenhedlu rhywiol ar wyneb y thalws sy'n gwasgaru sborau ffyngau, fel corff ffrwytho madarch. Yn siâp disg yn aml ond maent ar sawl ffurf

**Lirellae:** apothesia llinellol a geir ar y cennau sgrïpt

**Perithecia:** conigol, tebyg i losgfyndd, apothesia a geir yn y cennau brech

**Prothalws:** ymyl o linyddau ffyngau o amgylch ymyl thalws cen, yn lliw tywyll yn aml ac yn ffurfio border du

**Pruina:** siwgr eisin fel llwch dros wyneb thalws neu apothesiwm

**Pyncnidia:** strwythurau atgenhedlu llystyfol sy'n edrych fel perithecia bach yn ymddangos fel dotiau mân ar y thalws

**Serennaidd:** siâp seren

**Soralia:** strwythurau atgenhedlu llystyfol sy'n cynnwys soredia, maent yn ymddangos fel crafiadau neu wiserau ar y thalws

**Soredia:** gronynnau powdrog, cymysgedd o linyddau ffyngau ac alga, sy'n cael eu cynhyrchu yn y soralia

**Thalws:** corff y cen

Er bod enwau Cymraeg wedi cael eu defnyddio yn y canllaw hwn, ychydig sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Dylid defnyddio enwau gwyddonol bob amser wrth gofnodi cennau er mwyn osgoi amysedd.

Cyflwynwch eich cofnodion i Gymdeithas Cennau Prydain (edrychwch isod).

**Gwybodaeth Bellach**

**Lichens: An Illustrated Guide to the British and Irish Species.** Frank Dobson. 7fed Argraffiad (2018). Richmond Publishing Co. Ltd. Dyma'r canllaw adnabod gorau i'r rhan fwyaf o gennau cyffredin mewn amrywiaeth o gynefinoedd.

**Lichens.** Oliver Gilbert (2000). Cyfres New Naturalist Collins. Harper Collins, Llundain. Mae hwn yn gofnod hynod ddarllenadwy o ecoleg a chynefinoedd cennau ym Mhrydain, gan gynnwys pennod dda ar gennau coetir.

[britishlichensociety.org.uk](http://britishlichensociety.org.uk)  
 Mae gan Gymdeithas Cennau Prydain (BLS) wybodaeth am gennau, cyhoeddiadau, cyrsiau a dolenni gwe.



# Cennau Coedwigoedd Glaw Cymru

Canllaw 3 - Cennau rhisgl llyfn ar goed cyll, criafol, ynn a derw

  Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**  
 In Partnership with **Welsh Government**

Nodwr EF Brenin Charles III

Plantlife International - Mae'r Elusen Cadwraeth Planhigion Gwyllt yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, Rhif Elusen: 1059559. Wedi'i gofrestru yn yr Alban, Rhif Elusen: SC038951. Rhif Cwmni Cofrestredig: 3166339. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr.

© Plantlife Ionawr 2025

Ysgrifennwyd y canllaw hwn yn wreiddiol gan Andy Acton ac Anna Griffith. Delweddau © Andy Acton/Anna Griffith/Michael J Simms/Tim Wilkins/Neil A Sanderson/Dave Lamacraft

Mae'r canllaw maes yma ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn adnabod rhai o'r cennau amlycaf sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw tymherus yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i adnabod rhai o'r rhywogaethau mwy cyffredin, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n dynodi cynefin coedwig law dymherus da.

Mae'n edrych ar grŵp o gennau o'r enw'r *Graphidion* sy'n tyfu ar risgl llyfn coed fel cyll a chriafol, ac ynn a derw ifanc, yn enwedig mewn coetiroedd cysgodol ar lethrau is ac mewn dyffrynnoedd. Mae rhai rhywogaethau yn y gymuned hon i'w canfod yng nghoedwigoedd glaw tymherus Prydain ac unman arall yn y byd.

### Beth yw coedwig law dymherus?

Mae coedwig law dymherus yn brin yn fyd-eang. Mae'n bodoli lle mae'r hinsawdd yn fwy ac yn wlyb; mae'r amodau hinsoddol addas i'w cael dros lai na 7% o arwyneb y ddaear.

Nodweddir coedwig law dymherus yn arbennig gan dyfiant toreithiog o gennau, bryoffytâu i a rhedyn, ac mae llawer ohonynt yn hynod arbenigol a dim ond, neu'n bennaf, i'w cael mewn coedwig law dymherus.

Yn Mhrydain, fe'i ceir yn y gorllewin lle mae'r hinsawdd yn fwy'n a gwlyb oherwydd dylanwad Llif y Gwliff. Mae'n digwydd ledled y dirwedd fel coetir, porfa goed a choed gwasgaredig; mae'r ffordd mae pobl wedi ymwneud â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd wedi siapia'r hyn sydd gennym ni heddiw, ac mae'r hyn sy'n weddill yn bwysig yn rhyngwladol o ran y cynefin ei hun a'r rhywogaethau mae'n eu cynnal.

Ledled Prydain mae coedwigoedd glaw yn amrywio yn ôl hinsawdd; mae coedwig law dymherus yr iseldir i'w chael yng Ngorllewin yr Alban a rhannau o Cumbria a Gogledd Cymru, gan adlewyrchu'r amodau hinsoddol gwlypach, tra bo coedwig law ucheldirol yn fwy cyffredin. Lle mae'r amodau'n sychach ac yn fwy heulog, mae coetir cefnforol yn dod yn fwy cyffredin. Mae ein defnydd ni o'r term 'coedwig law' fan hyn yn cwmpassu gwir goedwig law a choetir cefnforol gan eu bod yn aml yn digwydd ochr yn ochr â'i gilydd ar draws tirwedd y goedwig law.

### Beth yw cen?

Mae cen yn organeb cyfansawdd sydd wedi'i ffurfio yn bennaf gan ffwng ac alga neu syanobacteria ond sy'n cynnwys ffyngau a bacteria eraill hefyd.

Y ffwng sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cen (y thalws), ond fel gyda phob ffwng ni all gynhyrchu bwyd iddo'i hun. Felly, mae'r ffwng yn ffurfioartneriaeth gyda'r alga neu'r syanobacteriw (y ffotobiont), weithiau'r ddau, sy'n cynhyrchu bwyd drwy ffotosynthesis. Mae syanobacteria hefyd yn cynhyrchu bwyd drwy ddal nïtrogen.

Y rhywogaeth ffyngaudd sy'n rhoi ei henw i'r cen; mae pob rhywogaeth o gen yn rhywogaeth ffyngaudd wahanol ond maent yn rhannu nifer cyfharol fach o rywogaethau algaidd neu syanobacterial.

Gallant atgenhedlu'n rhywiol, gan gynhyrchu sborau ffyngaudd sy'n cael eu gwasgaru gan y corff ffurwytho, ac yn llystyfol gyda pheynnau bach o'r alga a deunydd ffyngaudd yn cael eu gwasgaru mewn strwythurau bach e.e. isidia, soredia.

<sup>1</sup>Term casgliadol ar gyfer mwsoglau, cwpanllysiâu a chornllysiâu

### Pam mae cennau sy'n gysylltiedig â choedwigoedd glaw Cymru mor bwysig?

Mae coedwigoedd glaw tymherus Prydain yn gartref i boblogaethau rhyngwladol bwysig o gennau coedwigoedd glaw, gyda rhai ohonynt yn endemig h.y. ddim i'w canfod yn unman arall yn y byd. Gall y safleoedd cyfoethocaf gynnal hyd at 300 neu fwy o rywogaethau o gen.

Maent yn ddangosyddion pwysig o ansawdd cynefin a gallant ddweud wrthym am hanes ecolegol safle e.e. clirio coed yn y gorffennol. Maent yn fioddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i asesu ansawdd aer ac maent yn cyflawni rôl bwysig yn y cyfchoedd maethynnu a dŵr.

### Cymunedau o gennau

Nid ar hap yn unig y mae gwahanol rywogaethau o gennau i'w cael ledled y dirwedd. Er bod rhai'n gallu ymdopi ag ystod eang o amodau, mae llawer ohonynt yn hynod arbenigol i gilfachau penodol. Mae pa rywogaethau sy'n tyfu ymhle yn dibynnu ar lawer o ffactorau ond mae cemeg y swbstrad, lefelau'r golau, lefelau'r lleithder a hanes y dirwedd yn arbennig o bwysig. Mae gwahanol rywogaethau sydd â gofynion tebyg yn ffurfio cymunedau ecolegol unigryw, a'r prif rai yng nghoedwigoedd glaw tymherus Prydain yw:

**Y Lobarion:** a geir ar goed gyda rhisgl ychydig yn asidig i niwtral e.e. ynn, cyll, criafol, helyg a hen dderw (Canllaw 1). I'w canfod mewn coedwig law iseldirol a choetir cefnforol.  
**Y Parmelion:** a geir ar goed gyda rhisgl asidig e.e. gwerni, bedw a derw (edrychwch ar Ganllaw 2). I'w canfod yn arbennig mewn coedwig law ucheldirol.

**Y Graphidion:** yn digwydd yn nodweddiadol fel môsâig cymhleth o gennau cramennog ar risgl llyfn, yn enwedig ar goed cyll (y Canllaw yma). I'w canfod yn arbennig mewn coedwig law iseldirol a choetir cefnforol.

### Sut i ddefnyddio'r canllaw yma

Estynnwch lens llaw x10 ac ewch allan i'r coed! Mae'r gymuned Graphidion yn amrywio ledled Prydain, gan adlewyrchu amodau amgylcheddol gwahanol. Mae'r rhywogaethau yn y canllaw yma i'w gweld ar risgl llyfn. Yn gyffredinol maent yn eithaf anodd eu hadnabod ac mae angen archwilio'u nodweddion yn ofalus. Mae'r rhywogaethau i gyd yn gramennog yn eu ffurf twf, ond mae ganddynt wahanol fathau o gyrff ffurwytho. Mae'r canllaw wedi'i drefnu yn ôl y rhain:

- Cennau sgript; cyrff ffurwytho llinellol, o'r enw lirellae, yn aml yn ganghennog ac wedi'u rhannu, weithiau'n syml ac yn debyg i ffa coffi.
- Cennau coma; cyrff ffurwytho fel brychau bach, weithiau'n fân ac yn debyg i seren, weithiau'n grwn ac yn fwy o blob
- Cennau gefail a dafadenog; mae'r corff ffurwytho, os yw'n bresennol, wedi'i godi gydag ymyl trwchus a thwll yn y canol
- Cennau brech; cyrff ffurwytho du siâp côn sy'n edrych fel llosgfynyddoedd bach, yn fwy conigol na'r cennau gefail neu ddafadennog a gyda thwll bach ar y brig sy'n ymddangos fel dot bach os yw'n weladwy o gwbl

- Mae disgrifiadau'r rhywogaethau'n manylu ar y canlynol:
- y rhywogaethau hynny sy'n ddangosyddion cynefin coedwig law dymherus o ansawdd da (wedi'i nodi ag a ★), cadwch lygad am y rhain wrth gynnal Asesiad Cyfym o Goedwigoedd Glaw
  - pa mor gyffredin yw pob rhywogaeth mewn cynefinoedd coedwig law dymherus
  - nodweddion adnabod allweddol y thalws a'r apothesia
  - nodiadau e.e. y prif rywogaethau sy'n creu dryswch

## 1. Oes gan y gramen farciau sy'n debyg i ysgrifen neu sgriblau? Cen sgript.

Grŵp Cennau Sgript Cyffredin Grŵp *Graphis scripta*



**Thalws:** cymharol wyn i lwydwyrrd, llyfn fel rheol  
**Apothesia:** lirellae, amrywiol o ran maint a siâp, weithiau'n syth, weithiau'n grwn neu'n ganghennog, yn eistedd fwy neu lai yn lefel ag arwyneb y thalws. Mae ganddynt ymyl ychydig yn uwch y mae posib ei gau neu ei agor i ddatgelu arwyneb brownddu y tu mewn, gyda pruna weithiau  
**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Graphis* a *Phaeographis* eraill (edrychwch isod)  
**Nodiadau:** cyffredin

*Stictographa lentiginosa*



**Ffurff:** ffwng sy'n heintio'r cen *Phaeographis dendritica*  
**Lliw:** fel *P. dendritica*  
**Soredia/Isidia:** None  
**Ffrwyth:** brychau du gwastad bach sy'n disodli cyrff hadol siâp seren o *Phaeographis* lle mae wedi heintio'r thalws  
**Nodiadau:** prin. Mewn gwirionedd, mae'r rhywogaeth hon yn ffwng sy'n byw ar gen

*Arthonia atra*



**Thalws:** cymharol wyn i liw olewydd, oren pan gaiff ei grafu (dyma'r ffotobiont algaidd sy'n cael ei ddatgelu), gyda border du amlwg (prothalws) weithiau  
**Apothesia:** lirellae, wedi'u gwasgaru ar hap neu mewn llinellau cyfochrog neu glystyrog, yn syml neu'n ganghennog ac weithiau'n ffurfio clytiau du trwchus. Mae ganddynt ymyl ychydig yn uwch a hollt cul  
**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Opegrapha* a *Graphis*  
**Nodiadau:** cyffredin fel clytiau taclus ar risgl llyfn coed ifanc a changhennau

Cen Sgript Rhychog *Graphis elegans*



**Thalws:** cymharol wyn i lwydwyrrd, gydag arlliw brown neu huffennog yn aml  
**Apothesia:** lirellae byr, fel rheol yn syth, weithiau'n ganghennog, sy'n eistedd wedi'i godi uwchben wyneb y thalws. Mae ganddynt ymyl uchel amlwg sy'n rhychog neu'n gribog pan fydd wedi datblygu'n dda, ac yn gyffredinol mae wedi'i gau ac yn debyg i hollt  
**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Graphis* a *Phaeographis* eraill (edrychwch isod)  
**Nodiadau:** cyffredin

*Allographa anomala*



**Thalws:** cymharol wyn i lwydwyrrd, llyfn  
**Apothesia:** lirellae du byr, trwchus sy'n eistedd yn falch ar arwyneb y thalws. Mae ganddynt ymyl uwch sydd weithiau'n rhychog gyda hollt cul. Maen nhw'n edrych fel ffa coffi (edrychwch *A. pauciloculata* am fanylion apothesia).  
**Rhywogaethau tebyg:** *Rhywogaethau Graphis*, yn enwedig *G. elegans* (edrychwch uchod) gan fod yr ymylon weithiau'n rhychog mewn *Allographa anomala*, ond mae'r lirellae yn gyffredinol yn llai ac yn daclesach.  
**Nodiadau:** anghyffredin

*Enterographa crassa*



**Thalws:** llwyd golau, brown neu liw olewydd, trwchus a chwyraidd yr olwg, wedi cracio yn aml ac fel rheol gyda border du amlwg (prothalws)  
**Apothesia:** dotiau tywyll eithriadol fach neu frychau mewn llinellau troellog byr  
**Nodiadau:** cyffredin. Yn ffurfio mosaigau tynn gydag ef ei hunan a rhywogaethau eraill, yr unigolion wedi'u gwahanu gan linellau du tenau

## 2. A yw'r gramen wedi'i farcio â chlytiau tebyg i frychau? Cen coma

*Arthonia radiata*



**Thalws:** cymharol wyn, weithiau'n wyrdd, prothalws brown fel rheol  
**Apothesia:** strempiau du tebyg i seren neu grwn, weithiau wedi'u gorchuddio'n rhannol gan risgl  
**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Arthonia* eraill, mae angen archwiliad microsgopig i fod yn sicr  
**Nodiadau:** cyffredin



**Thalws:** ariannaidd i gymharol wyn neu lwydwyrrd, llyfn  
**Apothesia:** lirellae toreithiog, fel rheol yn fflaf, yn llydan ac yn ganghennog gyda blaenau pigfain, sy'n gorwedd yn lefel gydag arwyneb y thalws. Does ganddyn nhw ddim ymyl amlwg ond maen nhw'n edrych fel eu bod yn ffurwyddo drwy'r rhisgl, a'r ymylon yn pilio'n ôl i ddatgelu'r arwyneb tywyll sydd weithiau'n lasbeillio  
**Rhywogaethau tebyg:** rhywogaethau *Phaeographis* a *Graphis* eraill (edrychwch uchod), mae angen archwiliad microsgopig yn aml i fod yn sicr  
**Nodiadau:** cyffredin



**Thalws:** yn tyfu fel rheol ar thalws *A. anomala*, ond pan yn annibynnol mae'r thalws yn gymharol wyn i lwydwyrrd, llyfn  
**Apothesia:** lirellae clystyrog byr iawn sy'n eistedd yn uwchben arwyneb y thalws, yn grwn fel rheol ac wedi'i glystyru'n dynn yn glymau bach gan wneud marciau duon ar thalws *A. anomala* (edrychwch uchod)  
**Rhywogaethau tebyg:** mae'n hawdd eu camgymryd am *A. anomala* bach neu wedi datblygu'n wael ond mae'r ffordd y mae lirellae *A. pauciloculata* yn clymu gyda'i gilydd yn eithaf nodedig  
**Nodiadau:** anghyffredin